**Cofnod Cyfarfod Bwrdd S4C** **Cyfarfod Rhif 448**
**18 Mawrth 2021 - Cyfarfod dros Zoom**

**Presennol:**

| | | |
|---|---|---|
| **Aelodau Anweithredol y Bwrdd:** | Rhodri Williams | (Cadeirydd) |
| | Anita George | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Hugh Hesketh Evans | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Siân Lewis | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Adele Gritten | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Chris Jones | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Guto Bebb | (Aelod o'r Bwrdd) |
| **Aelodau Gweithredol:** | Owen Evans | (Prif Weithredwr) |
| | Elin Morris | (Prif Swyddog Gweithredol) |
| | Amanda Rees | (Cyfarwyddwr Cynnwys) |
| **Staff S4C oedd yn bresennol:** | Gwyn Williams | (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) |
| | Sharon Winogorski | (Prif Swyddog Cyllid) – eitem 6-12 |
| | Owen Derbyshire | (Cyfarwyddwr Digidol a Marchnata) - eitem 4 |
| | Owain Lloyd | (Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| | Bethan C. Williams | (Cynorthwyydd Ysgrifennydd y Bwrdd) |

**MATERION SEFYDLOG:**

1. **Croeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod Bwrdd Unedol S4C.

Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelodau oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau eraill oni bai am ddatganiad RhW mewn perthynas ag Ofcom.

*Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran y Bwrdd ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.*

2. **Adroddiad y Cadeirydd**

Roedd y Cadeirydd eisiau cofnodi'r newyddion trist am farwolaeth Euryn Ogwen Williams ac am i'r Bwrdd gydnabod ei gyfraniad i ddarlledu yng Nghymru. Roedd yn ffigwr allweddol yn hanes S4C a gweledigaeth Euryn oedd y sector annibynnol a chwmnïau yn cynhyrchu cynnwys ar draws Cymru. Roedd ei gyfraniad ers cychwyn S4C gan gynnwys yr adolygiad annibynnol yn 2018, yn hollbwysig. Ategodd OE gan ddweud fod S4C wedi colli ffrind a mentor.

3. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd OE ei adroddiad misol gan gynnwys y materion isod.

3.1 O ran cydleoli, roedd yn falch i adrodd fod y weithdrefn dechnolegol llawer mwy sefydlog bellach, ac er bod ambell broblem gyda S4C Clic, roedd cynlluniau ar y gweill i'w datrys.

3.2 Nodwyd fod llawer iawn o waith wedi’i wneud mewn perthynas â’r cais i’r DCMS.

**[Crynodeb:** Roedd OE ac OLl wedi cwrdd â swyddogion y DCMS i gychwyn y trafodaethau ar y cais. Yn ogystal, bu cyfarfodydd gyda gwleidyddion. Nododd OE y bydd trafodaethau dwys yn digwydd dros y misoedd nesaf, a’r gobaith oedd penderfyniad gan y DCMS erbyn Mehefin.]

Diolchodd RhW i’r tîm am yr holl waith ar y cais. Roedd y cais yn realistig ac yn gosod allan yr achos yn glir gyda thystiolaeth gref a manwl.

4. **Cyflwyniad Strategaeth Cynnwys 2022-27**

**[Crynodeb:** Cyflwynodd AR ddrafft o Strategaeth Cynnwys 2022-27, gan egluro amcanion y strategaeth a sut aethpwyd ati i lunio’r strategaeth trwy drafod ac ymgynghori’n fewnol ac yn allanol.

Yn dilyn y cyflwyniad cafwyd trafodaeth eang a sylwadau gan yr Aelodau. Gofynnwyd am fwy o waith ar y strategaeth ddrafft yn sgil sylwadau’r Aelodau.]

5. **Perfformiad Llinol a Digidol**

**[Crynodeb:** Cyflwynwyd y perfformiad llinol a digidol gan EJ, ac eglurodd fod y fformat newydd yn rhoi ychydig mwy o fanylion gan gynnwys cyrhaeddiad wythnosol a chyrhaeddiad oriau brig.

Cyfeiriodd at gynnydd yn y cyrhaeddiad a’r cyfartaledd miloedd ac at broffil oedran ein gwylwyr llinol.

O ran digidol, adroddwyd mai canran fechan, ond cynyddol, o’n gwylio sy’n dod o’r platfformau. Soniwyd am waith diweddar Enders Analysis ar y tueddiadau o ran gwylio yn y dyfodol. Cytunwyd rhannu’r adroddiad gyda’r Bwrdd.

Cyfeiriwyd at batrymau gwylio i ddramâu ac effaith y defnydd cynyddol o focs sets ar y patrymau.

Cadarnhawyd bydd sesiynau ymsefydlu’r aelodau newydd yn cynnwys ffigyrau gwylio.]

6. **Cyllideb 2021-22**

Cyflwynodd ShW amlinelliad o’r gyllideb.

**[Crynodeb:** Nid oedd y gyllideb yn edrych ymlaen y tu hwnt i 2021-22 gan fod y trafodaethau ar gyllid Ffi'r Drwydded yn parhau.

Cytunwyd i edrych ar sut i fesur a dosrannu costau cynnwys rhwng rhai llinol a digidol lle’n bosib.

Nodwyd fod arbedion amlwg drwy beidio teithio a chynnal digwyddiadau fel y noson gwylwyr. Cafwyd trafodaeth am y ffyrdd gorau o ymgysylltu a chyfarfod gyda’r cyhoedd yn y dyfodol, gan gynnwys defnyddio mwy o’r gynulleidfa wrth arbrofi syniadau newydd.

Holwyd os oedd unrhyw gynlluniau i ddiweddaru'r nosweithiau gwylwyr ac ati. Adroddodd OE ein bod eisoes wedi cynnal sawl digwyddiad FaceBook Live.]

7. **BBC**

**[Crynodeb:** Rhoddwyd diweddariad ar amryw drafodaethau gyda'r BBC.]

8. **Rhaglen Waith y Bwrdd**

Cyflwynwyd copi o Rhaglen Waith y Bwrdd ar gyfer 2021 er gwybodaeth.

9. **Cofnodion Cyfarfod 2 Mawrth 2021**

Cyflwynwyd cofnodion o gyfarfod rhif 447 gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2021. Ni thrafodwyd unrhyw faterion oedd yn codi o'r cofnodion. Cymeradwywyd y cofnodion.

10. **Cofrestr Pwyntiau Gweithredu a Phenderfyniadau**

Byddai OLl mewn cysylltiad yn fuan gyda'r aelodau newydd o ran sesiynau sefydlu.

11. **Unrhyw fater arall**

Diolchwyd am yr amrywiaeth o arlwy ar S4C yn ddiweddar. Roedd canmol mawr wedi bod.